

## Croeso!

Bellach ond diwrnodau sydd hyd fod tymor rasio 2014 yn cychwyn yng ngyfarfod Rasys Gwanwyn Tregaron Dydd Sul 4ydd Mai. Yn y rhifyn yma rydym wedi holi nifer o hyfforddwyro bob cwr o'r DU ac Iwerddon am y ceffylau i gadw llygad ar yn 2014. Mae'n werth i chi nodi'r dewisiadau!

### Beth sydd wedi bod yn digwydd?

Yn ol yr arfer mae Ceredrotian wedi bod yn paratoi go gyfer a'r tymor newydd. Rydym wedi bod yn cydweithio gyda chlybiau arall yng Nghymru. Ac unwaith eto rydym wedi sicrhau bod rasys harnais wedi ei harwyddo yn genedlaethol gyda erthygl yn y Western Mail yn ddiweddar. Hefyd mi fydd hysbysebion rasys harnais yn ymddangos yng gychgrawn Welsh Rider. I



gyd fynd a'r hysbysebion yn Welsh Rider mi rydym yn paratoi erthyglau a fydd yn ymddangos ym mhedwar rhifyn rhwng Mai ac Awst, mi fydd yr

erthyglau yn ymwneud a'r brid, y gamp, rasys a golwg mwy manwl a rhai o sêr y gamp (ceffylau a phobl). Y gobaith yw y bydd yr erthyglau yn codi ymwybyddiaeth ac annog ambell i un i ymgymryd â'r gamp. Diolch i'r clybiau sydd wedi cydweithio gyda Cheredrotian ar y fenter yma.

### Prosiect Clip Clop – Apel Pedolau

Mi fydd Ceredrotian yn agor Apel Pedolau yn Rasys Tregaron, apel I unrhywun sy'n ymwneud a cheffylau I roi eu hen bedolau i'r casgliad. Mi fydd y pedolau yn cael eu danfon i gael eu hail-gylchu ac mi fydd yr elw yn mynd i gymdeithas Marchogaeth I'r Anabl a Ambiwylans Awyr Cymru. Mi fydd yna finiau yn y rasys

i chi gael gadael eich hen bedolau. Un bin i bedolau alwminiwm a bin arall i'r pedolau dur. Os fedwch i chi wahanu'r pedolau mi fydd hyn yn ychwanegu i'w gwerth. Y gobaith yw parhau'r apêl drwy gydol yr haf, gyda gwahanol safleoedd lle fedwch chi gyfrannu. Mae'r siŵr bod gan bob un ohonoch bedolau o amgylch y stablau, felly plis crynhowch nhw gyd at ei gilydd a dod a nhw i rasys Tregaron. Os allwn ni gyd gyfrannu mi fydd 'na bentwr o bedolau - a chyfle i helpu rhai sydd yn llai ffodus a'r amgylchfyd.

### Clwb Trotian Tregaron Mai 4

Bellach dim ond diwrnodau sydd cyn bod y tymor rasio yn dechrau ac rydym yn edrych ymlaen ar ddechreuad cyffroes yn Nhregaron. Mi fydd uchafbwyntiau'r dydd yn cynnwys Handicap y Gwanwyn a'r Ddraig Hyn Gymreig. Yn draddodiadol mae'r Ras y Ddraig Hyn wedi denu ceffylau o'r safon uchaf a mawr yw'r disgwyliadau go gyfer ag eleni gyda brenin a brenhines geffylau 3oed llynedd, Stamp Hill a Ladyford Indiana wedi eu cynnwys. Mae rhai o weithgareddau cyn-dymor hefyd wedi datgelu ambell i geffyl arall i gadw golwg arno sef Rhyds Panache, Meadowbranch Ash a Coalford Chief.

Mi fydd y dydd hefyd yn cynnwys arddangosfa o hen geir clasurol wrth i tua 100 o Glwb Gyrwyr Bentley ymweliad a'r rasys gyda'u ceir godidog. Edrychwn ymlaen at groesawu Clwb Y Bentley a chi gyd i rasys Tregaron Mai 4ydd, ras gyntaf am 2 o'r gloch.



## Ceffylau i'w dilyn yn 2014

### Rhys Evans

Ceffyl i ddilyn yn 2014 fydd **SAUNDERS MACH 3** (Mach Three/Campressious). Ar hyn o bryd ma' fe ar farc handicap sydd lawer is nai allu, rwy'n disgwyl iddo symud 'mlaen yn gyflym.

Ceffyl tu allan i'r stabl i wyllo bydd **MEADOWBRANCH JOSH** (The Cammissioner/Churchill Queen), roedd Josh yn drawiadol yn Aberystwyth, Tir Prins (Crochan Aur) ac Efrog ar ddiwedd y tymor. Mae eisoes wedi dangos ei fod yn beryg yn y Free For Alls.

### Gregor Paterson

Eleni mae gennyf nifer o geffylau da ond yr un i ddilyn bydd **HAWTHORNS MAGGIE** (Coalford Art/Dot Comm). Mae Maggie yn gaseg galed sydd bob amser yn rhoi 100%. Mae'n gallu ymdopi a'r traciau caled a thraciau porfa ac yn gallu rhedeg dros unrhyw bellter. Enillodd ras penwythnos Murdock llynedd a sawl ras yn Haugh Field, felly rwy'n gobeithio fod mwy i ddod eleni eto.

Ceffyl tu allan i'r stabl i wyllo bydd **MR BRIGHTSIDE** (Dreamfair Vogel/Dillys Eyes On You), ceffyl o stabl y Gilvears. Roedd yr arwyddion yno llynedd ac mae'n siŵr o wella eleni. Un arall fydd **JACK SWAGGER** (Soulofthematter/Lyons Kellie Ann) mae'n siarad dros ei hun ac mewn dosbarth gwahanol, mi fydd yn cymryd andros o geffyl da i'w guro eleni.

### Marc Jones

Yr un i ddilyn eleni fydd **LADY GA GA** (Daylon Alert/Harden Paige) a **INTENSITY** (Immortalized/Apopka Denise), eboles 2 flwydd sy'n chwaer llawr I Inifatey sydd jyst yn dechrau ar ei gyrfa.

Tu allan i'r stabl, **IM IMPARTIAL TOO** (Immortalized/Brywins Melody), rwyn hoffi ceffyl Alan Brown yn fawr ac mi wnaeth gryn argraff arnaf llynedd.

### Colin Bevan

Un i ddilyn yw **WOODSTONE JINGO** (Make A Deal/Saunders Maple). Mi ddangosodd tipyn o addewid llynedd wrth ennill llon dwrn o rasys (yn cynnwys Cilmeri) ac mae'n gryfach ceffyl eleni. Mae'n dda yn ei hun ac yn mwynhau ei waith.

Tu allan i'r stabl **LAKESIDE PAN** (The One-Night Pan/Lakeside M J) and **LAKESIDE IDEAL** (Arturo/Nia Hanover). Cafodd Ronnie John dymor llwyddiannus iawn llynedd gyda'r ceffylau a wnaeth eu magu ei hunain. Fe redodd y ddau yma yn gyson ac mi fydd rhaid cadw llygad arnyn nhw.

### Geoff Dunne (Porterstown)

Mae rhai o'r ceffylau rydym yn hyfforddi eleni ac rwy'n hoffi yn cynnwys **SEPIA SANDS** (Somebeachsomewhere/Sepia Hanover) a **CAMDEN CASTELLANO** (Yankee Lariat/Lets All Boogie). Hefyd mae **PORTERSTOWN CHRIS** (Doonbeg/Miladys Pleasure) go gyfer a'r rasys 3 oed ac wrth gwrs mae'r hen ffefryn **DOONBEG** (Camluck/St Matricks Way) yn gweithio yn dda.

Tu allan i'r stabl **STAMP HILL** (Armbro Deuce/Teatime Hall) a **SAUNDERS MACH 3** (Mach Three/Campressious)

### Mike Evans

Un i ddilyn bydd **RHYDS DILEMMA** (Hasty Hall/Flynn). Enillodd 3 ras llynedd a safle ym mhob ras arall. Mae'n geffyl sy'n dod yn ei flaen yn dda ac sy'n garedig i'w hyn wrth hyfforddi. Rwy'n disgwyl iddo i gadw ymlaen i wella.

Tu allan i'r stabl **MATTISON** (Hasty Hall/Another Mattie). Fe wnaeth e ddal fy sylw mewn 'qualifiers' ar ddiwedd tymor llynedd. Mae'n edrych fel ceffyl a all fod yn gystadleuol o amgylch rasys Cymru a'r Gorllewin ac yn rhai o brif gyfarfodydd Cymru.

## Sheelagh Lord

Un i ddilyn bydd **RHYDS ART** (Hasty Hall/Arts Treasure). Mae wedi aeddfedu ac yn gryfach eleni.

Tu allan i'r stabl **JACK SWAGGER** (Soulofthematter/Lyons Kellie Ann). Mae'n edrych fel ceffyl da iawn ar farc handicap da.

## William Flanagan (Meadowbranch)

Mae'n debyg taw **MEADOWBRANCH ASH** (Kikikolt/Meadowbranch Giglo) fydd yr un i ddilyn eleni. Mae ebol golygus, yn fawr ac yn gryf gyda thipyn o bresenoldeb a chymeriad. Mae'n debyg iawn i'w dad Kikikolt, gydag agwedd hawddgar a chymryd popeth yn ei bwysau. Un arall i wyllo bydd **TARAWOOD MESSI** (Arts Conquest/One Meg Mile). Mi ddaeth atom ar ddiwedd tymor 2013. Cawsom ni ras neu 2 ganddo ac er iddo roi ambell i filltir gref mi roedd hefyd yn medru bod yn anghyson. Ac felly cymerwyd y penderfyniad i ddisbaddu fe. Hyd yn hyn mae wedi plesio wrth hyfforddi ac rydym yn edrych 'mlaen i'w rasys eleni gyda'r gobraith o bigo lan ambell i wobwr fawr. **MEADOWBRANCH IDEAL** (Western Ideal/Armbro Penelope), ebol 2 flwydd wnaethom ni brynu yn Harrisburg llynedd. Fe gymerom ni gyngor gan yr hyfforddwr o Ganada Blake Macintosh a hyd yma mae edrych fel cyngor da! Mae'n ebol mawr ond mae ganddo agwedd dda ac fe wnaeth darn o waith yn 2.26 yn ganol mis Ebrill yn hawdd iawn. Mae'n rhoi'r teimlad ei fod yn arbennig, felly digon i edrych ymlaen arno. Hefyd mae gennym 2 eboles wrth Crown Manhattan I Fridfa Talavary **TALAVARY JEWEL** (Crown Manhattan/Talavary Jade) a **TALAVARY TIARA** (Crown Manhattan/Pixel Hanover). Ar hyn o bryd ma' nhw yn hyfforddi yn dda, rydym yn edrych ymlaen at weld nhw ar y trac ac i weld os ydynt unrhyw beth fel eu tad. Mae'n rhaid hefyd son am **MEADOWBRANCH DJ** (Real Artist/Search For Cam), mi roedd braidd yn anghyson llynedd ond rydym yn disgwyl pethau mawr wrtho eleni. Mae'n anodd pigo ond un!

Tu allan i'r stabl **STAMP HILL** (Armbro Deuce/Teatime Hall). Rwy'n edrych ymlaen at ei weld yn rasio eleni, Roedd ennill y Ddraig Fach Gymreig a phencampwriaeth 3 oed Efrog, Tir Prins a Cheredigion yn dipyn o gamp ac felly mae'n rhaid bod yn un i wyllo.



*Jack Swagger yw'r un i ddilyn*

## Alexis Laidler

Un i ddilyn bydd follow **NO REGRETS** (Genghis Pan/Allamerican Bootie). Mi fydd yn un wyllo allan am yn rasys Gwanwyn Tregaron. Mi roedd yn dwlu ar y trac pan ddaethom a fe lawr i Dregaron Mis Awst diwethaf, felly rydym yn gobeithio y bydd e'r un fath mis Mai. Hefyd mae **STAMP HILL** (Armbro Deuce/Teatime Hall) yn hyfforddi mor dda ar hyn o bryd, mae wedi aeddfedu ac mi fydd yn cael ei anelu at y rasys i geffylau 4 oed eleni.

Tu allan i'r stabl **JACK SWAGGER** (Soulofthematter/Lyons Kellie Ann) yw'r ceffyl am bawb yn siarad am yma yn y gogledd. Dim ond 2 ras mae wedi cael, ond ennill y 2 yn hawdd iawn. Un arall i wyllo bydd **MEADOWBRANCH ROMEO** (Fantastic Western/Churchill Queen). Rwy'n credo y gall hwn ennill u o'r rasys mawr eleni. Roedd yn gyson yn y ffrâm llynedd ac yn rhedeg yn well fel oedd y tymor yn mynd yn ei flaen.

## Hugh O Neil

Os oes rhaid i mi ddewis un, wedyn **MAKEMEAMILLIONAYR** (Daylong Alert/Ayr Wing). Mae wedi dangos dawn ac fe enillodd cwpwl o rasys yn 2013. Mi ddaeth ei fam, Ayr Wing yn well gydag oedran ac rydym yn gobeithio bydd e'n gwneud yr un fath.

Tu allan i'r stabl, fy newis i yw **JACK SWAGGER** (Soulofthematter/Lyons Kellie Ann), cafwyd 2 berfformiad gloyw ganddo yn Musselburgh a Haughfield.

# Newyddion Sydyn

## Vicky Gill

Un i'w ddilyn bydd **CAMDEN TINO** (Yankee Lariat/So Hip It Hurts). Rwy'n gobeithio y bydd yn parhau a'r un llwyddiant a llynedd. Mae tipyn cryfach eleni, felly croesi'r bysedd.

Y peryg o stabl arall fydd **RHYDS DESIGN** (Hasty Hall/CPR). Fe welais yn rasio cwpwl o weithiau llynedd ac fe wnaeth gryn argraff arnaf.

## Michael O'Mahony

**FRESH AYR** (Hasty Hall/Very Fast Cass) yw fy newis i. Mae wedi aeddfedu dros y gaeaf ac yn dod yn ei blaen yn neis. Ond mi fydd rhai iddi wella tipyn i fod yn agos i debyg Serrano Hall a Rhyds Art, ond rydym yn gobeithio ei bod hi.

O du allan i'r stabl, rwy'n credu fod gwerth cadw llygad ar **WELLFIELD DYLAN** (Village Connection/Wellfield Ellie). Cefais deimlad da ganddo wrth 'qualiffio' fe i Roy Sheedy llynedd.

## David Bevan

Y ceffyl rwy'n edrych ymlaen fwyaf i eleni yw **RHYDS PANACHE** (The One-Night Pan/Bouncie) mae jyst yn gwella drwy'r amser.

A'r ceffyl o stabl arall rwy'n edrych ymlaen at weld yw enillydd y Derbi **McCOY** (The One-Night Pan/Coalford Beauty)

- Tal Aelodaeth Clwb Cardigan Bay yn ddyledus nawr – Oedolion £15, Aelodau Iau £5. Cofiwch fod rhaid i'r perchennog, hyfforddwr a'r gyrrwr fod yn aelod llawn i gymryd rhan yn ras yr aelodau. Gallwch dalu eich aelodaeth i Kayleigh Evans, Plas Newydd, Penuwch, Tregaron, Ceredigion, SY25 6QZ. Mae angen i ni gadw ein haelodaeth er mwyn sicrhau ein llais ac aelodaeth ar Bwyllgor BHRC

